# COFNODION

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Mercher, 3 Mawrth 2004 |
| **Amser:** | 9.00am hyd 1.00pm |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 1, Cynulliad Cenedlaethol Cymru |
| **Yn bresennol:** | **Aelodau'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol** |

| | |
|---|---|
| David Melding **(Cadeirydd)** | Canol De Cymru |
| Jocelyn Davies | Dwyrain De Cymru |
| John Griffiths | Dwyrain Casnewydd |
| Jane Hutt (Gweinidog) | Bro Morgannwg |
| Ann Jones | Dyffryn Clwyd |
| Val Lloyd | Dwyrain Abertawe |
| Jonathan Morgan | Canol De Cymru |
| Gwenda Thomas | Castell-nedd |
| Rhodri Glyn Thomas | Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr |
| Kirsty Williams | Brycheiniog a Sir Faesyfed |

**Hefyd yn bresennol**

| | |
|---|---|
| Maria Battle | Dirprwy Gomisiynydd |
| Peter Clarke | Comisiynydd Plant Cymru |
| Rhian Davies | Comisiynydd Cynorthwyol |
| Sara Reid | Comisiynydd Cynorthwyol |

**Swyddogion yn bresennol**

| | |
|---|---|
| Chris Burdett | Is-adran Polisi Plant a Theuluoedd |
| John Carter | Is-adran Polisi Pobl Hyn a Gofal Hirdymor |
| Phil Chick | Cyfarwyddwr Iechyd Meddwl |
| Dr Ruth Hall | Y Prif Swyddog Meddygol |
| Ann Lloyd | Pennaeth, Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol |
| Mike Shanahan | Is-adran Polisi Pobl Hyn a Gofal Hirdymor |

**Ysgrifenyddiaeth:**

| | |
|---|---|
| Jane Westlake | Clerc y Pwyllgor |
| Claire Morris | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |
| Peter Jones | Cwnsler i'r Pwyllgor |

## Eitem 1: Ymddiheuriadau, Dirprwyon a Datgan Buddiannau

1.1 Nid oedd unrhyw ymddiheuriadau.

1.2 Nid oedd unrhyw fuddiannau i'w datgan.

## Eitem 2: Adroddiad y Gweinidog *(9.05 – 10.15am)*
**Papur: HSS(2)-04-04(p.1)**

2.1 Cyflwynodd y Gweinidog yr adroddiad. Ers cyhoeddi'r adroddiad, dywedodd fod adrannau Iechyd a Pholisi Cymdeithasol Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi uno i greu un Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Dywedodd hefyd fod y pecyn cyllido o £30m a gyhoeddwyd yn ddiweddar i roi agenda ddiwygio Wanless ar waith yn lleol wedi'i ddyrannu yn unol ag argymhellion Townsend, gyda'r ardaloedd â'r anghenion mwyaf o ran iechyd yn derbyn y symiau uchaf.

2.2 Llongyfarchodd y Pwyllgor Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Orllewin Cymru ar adroddiad cadarnhaol y Comisiwn Gwella Iechyd ynghylch gwasanaethau iechyd meddwl (Adran 10 o'r adroddiad).

2.3 Mewn ymateb i sylwadau a chwestiynau gan yr Aelodau ar ei hadroddiad, gwnaeth y Gweinidog y pwyntiau canlynol:

### Adran 1. Fframwaith Gwasanaeth a Chyllid: Blaenoriaethau Blynyddol a Chanllawiau Cynllunio ar gyfer 2004-2005

- Roedd drafft cyntaf yr holl Fframweithiau Gwasanaeth a Chyllid wedi'u cyflwyno erbyn 28 Chwefror.
- Roedd y cyllid o £30m ar gyfer cynlluniau gweithredu Wanless wedi'i ddosbarthu ymysg y byrddau iechyd lleol a'r awdurdodau lleol cyn iddynt gyflwyno eu cynlluniau drafft gan fod angen iddynt wybod beth oedd eu dyraniad at ddibenion cynllunio.
- Dylai'r cynnydd yn y galw am y Gwasanaeth Ambiwlans gael ei gydnabod wrth edrych ar y targedau.

### Adran 3. Y Rhaglen Gwelliannau mewn Theatrau

- Dylid cydnabod bod staff sy'n gweithio yn unedau'r galon yn gweithio dan bwysau aruthrol a bod hawl gan y staff i gymryd amser i ffwrdd. Mater i'r rheolwyr lleol oedd penderfynu pryd y byddai'r amser mwyaf priodol iddynt wneud hynny.
- Byddai adroddiad interim yn cael ei baratoi ar y rhaglen gwelliannau mewn theatrau. Roedd y rhaglen hefyd yn cynnwys triniaeth yn dilyn llawdriniaeth.

### Adran 4. Materion Trawsffiniol

- Y gweithgor sy'n cynnwys swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru a swyddogion yr Adran Iechyd i edrych ar y materion trawsffiniol a gyflwynwyd at sylw'r Gweinidog ac yna'r Gweinidog i lunio adroddiad fel y bo'n ofynnol ar gyfer y Pwyllgor.
- Cynhaliodd y Gweinidog gyfarfodydd â'i chyd-Weinidogion yn rheolaidd.

### Adran 5. Cynllun yr Ail Gynnig

- Dylai pob claf a fu'n aros dros 18 mis fod wedi derbyn ail gynnig erbyn diwedd mis Ebrill. Nid oedd yr un maes arbenigol wedi'i hepgor o gynllun yr ail gynnig er y byddai rhai meysydd, megis llawdriniaeth nerfol, yn fwy anodd.
- Roedd £5m wedi'i ddyrannu hyd at 31 Mawrth 2004 a £12m ar gyfer 2004 – 2005 er mwyn gweithredu'r cynllun.
- Cytunwyd ar y tariff â darparwyr y GIG yn Lloegr a thrafodwyd gostyngiadau â'r sector preifat.
- Byddai adroddiad yn cael ei ddarparu yn nodi sut yr oedd ail gynigion a wrthodwyd yn cael eu cofnodi yn yr ystadegau ar gyfer yr amserau aros.

- Roedd hi'n bwysig bod ymddiriedolaethau a oedd yn perfformio'n dda yn cael eu gwobrwyo ac nid eu cosbi o dan y cynllun.

### Adran 6. Amserau aros ar 31 Rhagfyr 2003

- Bu'r dull o gofnodi amserau aros yng Nghymru yn dryloyw erioed ac ni fu unrhyw ymgais i'w hystumio na'u camliwio.

### Adran 7. Ysbyty Newydd yn Ninbych-y-pysgod

- Nid oedd y rhaglen gyfalaf wedi'i hatal. Roedd nifer o achosion busnes amlinellol o dan drafodaeth.
- Byddai adroddiad yn cael ei ddarparu ar effaith yr adroddiad archwilio ar Wasanaethau Cymdeithasol Sir Benfro ynghylch y gwasanaethau integredig yn Ysbyty newydd Dinbych-y-pysgod.

### Adran 8. Dirywiad Macwlar yn ôl Oed

- Byddai rhagor o wybodaeth yn cael ei darparu yn dilyn gweithredu canllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol (NICE) ynglyn â therapi ffotodynamig ym mis Mehefin gan y Byrddau Iechyd Lleol.

### Adran 9. Hepatitis C

- Byddai ymateb ysgrifenedig yn cael ei ddarparu ar effeithiau'r cynllun taliadau ex-gratia ynghylch hawl i fudd-daliadau, yn arbennig mewn perthynas â chredyd pensiwn a chymhorthdal incwm.

### Adran 11. Canllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol (NICE) ynglyn ag Anhwylderau Bwyta

- Roedd y broses o ganfod cleifion a'u trin yn dechrau o safbwynt a gâi ei arwain gan Ofal Sylfaenol. Roedd y cyllidebau yn cael eu harwain gan yr anghenion.

### Adran 12. Grant gwariant i gynyddu'r gallu i ofalu am bobl yn eu cartrefi ac yn y gymuned

- Byddai'r £19.508m ychwanegol ar ffurf grant arbennig, gyda thelerau ac amodau wedi'u pennu, a byddai'n rhaid i'r awdurdodau lleol gyflwyno cynlluniau i Lywodraeth y Cynulliad Cenedlaethol. Byddai'r grant yn hyblyg a gallai gael ei ddefnyddio i leihau oedi wrth drosglwyddo gofal neu wella'r ffordd yr oedd awdurdodau lleol yn cynllunio ac yn ariannu lleoedd mewn cartrefi gofal.

### Adran 13. Yr ymrwymiad yn y maniffesto i ddarparu gofal am ddim yn y cartref i bobl anabl

- Mae'r gweithgor wedi'i ailymgynnull a byddai'n rhoi cyngor ar y diffiniad priodol ar gyfer anabledd. Byddai Llywodraeth y Cynulliad hefyd yn ystyried yr effaith ar yr hawl i gael budd-dal.

### Adran 15. Arolygu Gwasanaethau Cymdeithasol Plant yn Ninas a Sir Caerdydd

- Byddai amserlen yn nodi pryd y disgwylid i Wasanaethau Cymdeithasol Caerdydd gyrraedd safon dderbyniol yn cael ei darparu.

**Camau gweithredu**

- Ystyried trefnu eitem ar y Fframweithiau Gwasanaeth a Chyllid ar gyfer cyfarfod i'w gynnal yn y dyfodol.
- Byddai adroddiad interim ar y rhaglen gwelliannau mewn theatrau yn cael ei ddarparu.
- Byddai adroddiad yn cael ei ddarparu yn nodi sut yr oedd ail gynigion a wrthodwyd yn cael eu cofnodi yn yr ystadegau ar gyfer yr amserau aros.
- Byddai adroddiad yn cael ei ddarparu ar effaith yr adroddiad archwilio ar Wasanaethau Cymdeithasol Sir Benfro ynghylch y gwasanaethau integredig yn Ysbyty newydd Dinbych-y-pysgod.
- Byddai adroddiad yn cael ei ddarparu ar ganllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol (NICE) ynglyn â defnyddio therapi ffotodynamig.
- Byddai'r Gweinidog yn ysgrifennu at Gwenda Thomas am effaith y taliadau Hepatitis C ar hawl i fudd-daliadau.
- Y Pwyllgor i ystyried craffu ar y defnydd mae awdurdodau lleol yn ei wneud o'r grant arbennig o £19.5m.
- Byddai amserlen yn nodi pryd y disgwylid i Wasanaethau Cymdeithasol Caerdydd gyrraedd safon dderbyniol yn cael ei darparu.
- Byddai'r wybodaeth ddiweddaraf am y datblygiadau ynghylch y rhaglen gyfalaf yn cael ei darparu.

**Eitem 3: Adolygiad o'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Iechyd Meddwl *(10.15 – 11.15am)***
**Papur: HSS(2)-04-04(p.2)**

3.1 Cyflwynodd Phil Chick, Cyfarwyddwr, Iechyd Meddwl, y papur. Mae crynodeb o'r cyflwyniad ynghlwm yn Atodiad A.

3.2 Gwnaeth yr aelodau y sylwadau canlynol:

- Bu gweithredu'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol yn broses arafach na'r hyn a obeithid.
- Mynegwyd gofid y gallai'r adolygiad ar ansawdd a risg achosi oedi pellach.
- Nid oedd costau ynghlwm wrth yr argymhellion ac roedd rhai o'r ffynonellau cyllido yn anghynaliadwy, e. e. y Gronfa Cyfleoedd Newydd. Dylai fod yna gynllun ac ymrwymiad cyllido hirdymor fel yn yr Alban.
- Nid oedd hi'n ymddangos bod yna gyswllt rhwng y strategaeth a'r ddarpariaeth yn lleol.
- Dylai fod gan ddefnyddwyr y gwasanaeth ran i'w chwarae yn datblygu'r gwasanaethau.
- Byddai systemau TG integredig a chofnodion cleifion electronig yn angenrheidiol er mwyn sicrhau bod y dull o reoli achosion yn seiliedig ar y claf.
- Roedd y Dull Rhaglen Ofal yn ymwneud ag anghenion yr unigolyn ond roedd yn rhaid ystyried anghenion aelodau'r teulu, yn arbennig mewn perthynas â materion yn ymwneud ag amddiffyn plant, hefyd.
- Derbyniwyd bod angen cryfhau'r gweithdrefnau comisiynu ond y gobaith oedd y byddai yna hyblygrwydd er mwyn mynd i'r afael ag anghenion lleol.

3.3 Mewn ymateb i sylwadau a chwestiynau gan yr Aelodau, gwnaeth Phil Chick y pwyntiau canlynol:

- Nod yr adolygiad oedd diwygio'r gwasanaethau ymhellach.
- Roedd y gwaith o ddatblygu Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar waith gan y Byrddau Iechyd Lleol, awdurdodau lleol a sefydliadau eraill a oedd yn bartneriaid. Byddai amserlen newydd yn cael ei datblygu er mwyn adlewyrchu'r blaenoriaethau, ond ni ddylai hyn olygu oedi o ran ei weithredu.
- Roedd darparu gwasanaethau iechyd meddwl mewn ardaloedd gwledig yn cynnig sialensau gwahanol iawn i'r hyn a geid mewn ardaloedd trefol. Roedd llawer o'r modelau wedi'u datblygu'n benodol ar gyfer ardaloedd trefol ond roedd rhai enghreifftiau da o'r ddarpariaeth a gâi ei chynnig gan gynnwys cynllun yn Co. Monaghan, Iwerddon, a oedd yn llwyddo i godi'r pwysau oddi ar y gwasanaethau acíwt.
- Roedd sylw yn cael ei ganolbwyntio ar fynd i'r afael ag argyfyngau a gwella amgylchedd therapiwtig cleifion mewnol oherwydd eu bod yn feysydd a brofwyd yn feysydd a effeithiai fwyaf ar y gwasanaethau a ddarperir. Ni olygai hyn na fyddai'r datblygiadau eraill yn y gwasanaeth yn cael eu gwireddu, na bod agweddau eraill ar y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol yn cael eu hystyried yn llai pwysig.
- Nod mynd i'r afael ag argyfyngau oedd cynnig dull rhagweithiol o ymyrryd ar yr adeg briodol yn hytrach nag aros i gleifion gyrraedd cyflwr a fyddai'n argyfyngus. Rhoi dewis ac opsiynau eraill i ddefnyddwyr gwasanaethau oedd y nod.
- Roedd mudiadau o fewn y sector gwirfoddol wedi datblygu gwasanaethau seibiant ar gyfer achosion nad oeddent yn acíwt yn rhan o'u dulliau o fynd i'r afael ag argyfyngau.
- Bwriad y system rheoli gwelyau oedd defnyddio'r lleoedd sydd ar gael i gleifion mewnol yng Nghymru yn y dull mwyaf effeithiol.
- O ystyried y cyfyngiadau o ran nifer y seiciatryddion, nyrsys seiciatryddol ac arbenigwyr eraill a oedd ar gael, roedd angen diwygio'r gweithlu er mwyn sicrhau y byddai staff cymorth ar gael i ymgymryd â rhai o'u swyddogaethau.
- Nid oedd staff cysylltiedig nad oeddent yn weithwyr proffesiynol yn golygu nad oedd ganddynt gymwysterau. Gallent fod yn ddefnyddwyr gwasanaethau yn gwella neu gallai fod ganddynt radd berthnasol heb iddynt fod yn weithwyr cymdeithasol, meddygon na nyrsys.
- Bydd angen gweithlu wedi'i arolygu'n briodol ac yn meddu ar y cymwyseddau priodol yn gweithio o fewn rhaglen a ddatblygwyd ac a reolwyd i sicrhau bod y cymysgedd priodol o sgiliau ar gael i ddarparu gwasanaethau iechyd meddwl priodol.

3.4 Gwnaeth y Gweinidog y pwyntiau canlynol:

- Byddai cynllun gweithredu yn ei le erbyn diwedd y flwyddyn a châi ei adlewyrchu yn y Fframweithiau Gwasanaeth a Chyllid am y blynyddoedd i ddod.
- Roedd cynllun deng mlynedd wrthi yn cael ei ddatblygu ar gyfer y gwasanaethau iechyd meddwl.
- Roedd y Fframweithiau Gwasanaeth a Chyllid yn cynnwys tri tharged iechyd meddwl penodol. Nid oedd y lefel hon o atebolrwydd wedi bod cyn hyn.
- Roedd yna hyblygrwydd i ganiatáu amrywiaeth.
- Bu datblygiadau sylweddol yn y gwasanaethau iechyd meddwl, gyda datblygiadau newydd yng Nghastell-nedd Port Talbot ac Ysbyty Brenhinol Morgannwg, yr ehangu yn Caswell a £6m ar gyfer uned newydd yn Ysbyty Llandoche.
- Roedd annog defnyddwyr i fod yn rhan o brosesau yn bwysig a chafodd hyn ei gynnwys yn y Fframwaith Gwasanaeth a Chyllid am eleni. Roedd y Gweinidog hefyd yn cyfarfod yn rheolaidd â defnyddwyr gwasanaethau yn ogystal â mudiadau o fewn y sector gwirfoddol.
- Roedd y rhwydweithiau a ddatblygwyd mewn gofal sylfaenol wedi darparu dull hyblyg o fonitro a sicrhau y clywir llais defnyddwyr.

- Dylid dysgu gwersi o Loegr wrth gyflwyno'r Dull Rhaglen Gofal.

**Camau gweithredu**

- Byddai manylion yn cael eu darparu ynglyn â'r gwariant ar iechyd meddwl dros y 5 mlynedd diwethaf.
- Y Pwyllgor i ystyried a ddylai gynnal trafodaethau pellach ar yr adolygiad o'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol.

### Eitem 4: Comisiynydd Plant Cymru – Adroddiad Blynyddol 2002-03 *(11.35 – 12.40pm)*

4.1 Croesawodd y Cadeirydd Peter Clarke, Maria Battle, Rhian Davies a Sara Reid. Cyflwynodd y Comisiynydd ei dîm gan roi amlinelliad o rôl pob unigolyn.

4.2 Mewn ymateb i sylwadau a chwestiynau gan yr Aelodau, gwnaeth y Comisiynydd a'i dîm y pwyntiau canlynol:

- Y prif reswm a roddwyd gan awdurdodau lleol dros beidio â phenodi swyddog penodol i ddelio â chwynion plant oedd eu bod yn credu bod gan eu swyddog cwynion presennol ddigon o arbenigedd a gwybodaeth i weithio gyda phlant a phobl ifanc wrth brosesu eu cwynion.
- Byddai pum adolygiad yn ymwneud â gwahanol wasanaethau a gâi eu darparu gan y sectorau gwirfoddol a statudol yn cael eu cynnal cyn hir. Penderfynwyd ar y meysydd hyn am nad oedd hi'n ymddangos eu bod yn diogelu buddiannau plant.
- Tra bo dealltwriaeth ymhlith uwch swyddogion yr heddlu ynglyn â materion yn ymwneud â delio â phlant a phobl ifanc a'r dulliau y dylid eu defnyddio, roedd y sefyllfa'n wahanol iawn yn aml i'r hyn a welid yn digwydd ar lawr gwlad.
- Roedd enghreifftiau o arferion da yn bod lle'r oedd awdurdodau lleol wedi cynnwys barn plant yn rhan o'u prosesau cynllunio. Roedd gan blant gymaint o hawl â neb yn y gymuned i ddisgwyl bod eu barn yn cael ystyriaeth.
- Byddai'r gwaith o fonitro'r gwasanaethau iechyd meddwl ar gyfer plant a'r glasoed yn parhau. Byddai holiadur yn cael ei ddosbarthu i ymddiriedolaethau'r GIG a'r Byrddau Iechyd Lleol cyn hir i ddarganfod lefel a natur eu gwasanaethau iechyd meddwl ar gyfer plant a'r glasoed.
- Mynegwyd rhai pryderon ynglyn â'r cynigion i sefydlu Comisiynydd Plant yn Lloegr, yn arbennig yng nghyswllt materion heb eu datganoli yng Nghymru, gan y gallai hyn beri dryswch i blant.
- Nid oedd unrhyw gyswllt wedi'i wneud hyd yma â'r awdurdodau lleol a fyddai'n cynnal adolygiadau o'r achosion lle cymerwyd plant i ofal ar sail tystiolaeth feddygol a allai fod yn ddiffygiol neu lle bo amheuaeth yn ei chylch.
- Roedd y gwaith a wnaed rhwng gwahanol genedlaethau yn cael ei ystyried yn gam positif ymlaen a fu o gymorth i chwalu'r delweddau ystrydebol yr oedd pobl ifanc a phobl hyn yn eu coleddu am ei gilydd.
- Roedd yr angen i sicrhau cydbwysedd rhwng hawliau'r plentyn a hawliau'r oedolyn a gafodd ei gyhuddo mewn achosion lle gwnaed honiadau o gam-drin yn cael ei gydnabod.
- Derbyniwyd sylwadau gan rieni plant awtistig ynglyn â'r problemau a wynebent wrth geisio sicrhau addysg i'w plant mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg fel ei gilydd.
- Roedd bwlio yn broblem fawr i nifer o blant. Rodd nifer o gynlluniau a phrosiectau da mewn ysgolion i fynd i'r afael â bwlio ond roedd yna nifer o athrawon o hyd a wrthodai gydnabod ei fod yn broblem yn eu hysgol. Roedd yna hefyd achosion o athrawon ac oedolion yn bwlio plant a gallai hyn fod yn rhan o un o'r

adolygiadau y cyfeiriwyd atynt yn gynharach.

4.3 Cyhoeddodd y Gweinidog y byddai, mewn ymateb i’r pryderon a godwyd gyda hi gan Goleg Brenhinol y Seiciatryddion, yn sicrhau bod £700,000 ychwanegol ar gael i gynorthwyo’r Cynghorau Iechyd Lleol i gyflwyno Strategaeth Iechyd Meddwl Plant a’r Glasoed. Rhagwelid y byddai’r Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd (CAFCASS) yn cael ei drosglwyddo i Lywodraeth Cynulliad Cymru a sicrhaodd yr Aelodau fod CAFCASS wedi dileu’r llwyth gwaith yn deillio o achosion oedd heb eu penderfynu yng Nghymru.

**Cam gweithredu**

- Byddai’r enghreifftiau a ddarparwyd gan y Comisiynydd Plant o arferion da gan awdurdodau lleol wrth gynnwys plant yn eu proses gynllunio yn cael eu dosbarthu.

**Eitem 5: Materion Ewropeaidd Cyfredol *(12.40 – 12.43pm)***
**Papur: HSS(2)-04-04(p.3)**

5.1 Cytunwyd ar y weithdrefn a gynigiwyd i’r Pwyllgor ystyried deddfwriaeth Ewropeaidd.

5.2 Nodwyd yr eitemau canlynol fel eitemau a allai fod o ddiddordeb i’r Pwyllgor:

- Deunydd gan y Comisiwn i’r Cyngor, Senedd Ewrop, Pwyllgor Economaidd a Chymdeithasol Ewrop ar gyfer y Rhanbarthau ynglyn â gwerthuso Cynllun Gweithredu Amlflwydd y Gymuned ar hyrwyddo defnydd mwy diogel o’r Rhyngrwyd a’r technolegau ar-lein newydd drwy fynd i’r afael â chynnwys anghyfreithlon a niweidiol ym maes diogelu plant a phobl ifanc dan oed yn arbennig.
- Cyfarwyddeb Oriau Gwaith Ewrop.

5.3 Nodwyd hefyd fod yna gynigion i sefydlu canolfan Ewropeaidd i reoli clefydau trosglwyddadwy ac mae’n bosibl y bydd y Comisiwn am archwilio’r rhain pan gânt eu cyhoeddi.

**Eitem 6: Rhestr o’r Is-ddeddfwriaeth *(12.43 – 12.45pm)***
**Papurau: HSS(2)-04-04(p.4a) a HSS(2)-04-04(p.4b)**

6.1 Nodwyd yr eitemau canlynol gan y Pwyllgor fel eitemau i’w hystyried:

**Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

| | |
|---|---|
| HSS-27(04) | The Social Services Complaints Procedures (Wales) Regulations 2005 |
| HSS-28(04) | The National Health Service Complaints Procedures (Wales) Regulations 2005 |

**Eitem 7: Cynllun Lleoli Oedolion (Cymru): Rheoliadau a Safonau Gofynnol Cenedlaethol *(12.45 – 1.00pm)***

**Papurau: HSS(2)-04-04(p.5); HSS(2)-04-04(p.5a); HSS(2)-04-04(p.5b); HSS(2)-04-04(p.5c);**

7.1 Yn unol â’r protocol y cytunwyd arno gan y Pwyllgor, roedd y rheoliadau drafft a’r safonau gofynnol cenedlaethol wedi’u dosbarthu cyn y cyfarfod er mwyn i’r aelodau roi gwybod am unrhyw ymholiadau neu ddiwygiadau y carent eu gwneud.

### Pwynt o eglurder a godwyd gan Blaid Cymru

Rhan III

Rheoliad 13 (2) (f)

Os na fydd unrhyw unigolyn, ar wahân i’r person cofrestredig, ar gael i helpu i gynrychioli’r oedolyn, pa opsiynau sydd ar gael i ddod o hyd i rywun i ymgymryd â’r rôl honno, gyda chaniatâd yr oedolyn?

### Ymateb y Gweinidog

Mae’n bosib na fyddai unigolyn am enwebu person. Pan fyddai unigolyn am wneud hynny yna, gyda rhai eithriadau, gallai fod yn unrhyw un y carai’r unigolyn ei enwi. Petai’r bobl hynny a enwyd gyntaf yn gwrthod ymgymryd â’r rôl hon, yna mater i’r unigolyn fyddai ystyried a phenderfynu beth yr hoffai ei wneud drwy drafod y sefyllfa, gydag eiriolwr o bosib. Roedd y geiriau ‘*wherever practicable’* ar ddechrau’r rheoliad drafft yn cydnabod, mewn achosion prin iawn, y gallai pob un a enwyd gan yr unigolyn wrthod cael ei enwebu. Ni ddylai neb gael ei orfodi i ymgymryd â’r rôl hon, rhaid i bob unigolyn benderfynu sut i ymateb. Teimlwyd y byddai’n amhriodol i berson cofrestredig y cynllun lleoli oedolion neu aelod o staff y cynllun neu’r gofalwr lleoli oedolion ymgymryd â’r rôl hon.

Byddai gan y Gwasanaethau Cymdeithasol ddyletswydd gofal o hyd tuag at yr unigolyn a fyddai’n medru parhau i alw ar y gwasanaethau eiriolaeth.

### Gwelliannau a Gynigiwyd

Rhan III

### Gwelliant 1 *(Plaid Cymru)*

Rheoliad 13. (2)

Ychwanegu fel paragraff newydd (o) ac ailrestru’r paragraffau canlynol fel y bo’n briodol:

*that the agreement provides that a record is kept of each occasion when physical restraint is employed, and that the individual named by the adult in the provision mentioned in paragraph (f) is notified.*

### Ymateb y Gweinidog

Yn unol â Rheoliad Drafft 20 ac Atodlen ddrafft 4 paragraff 4 sy’n berthnasol iddo dylai cofnod gael ei gadw o

unrhyw ataliaeth gorfforol a ddefnyddiwyd gydag oedolyn a leolwyd o dan y cynllun. Yn unol â Safon Ofynnol Genedlaethol 23 roedd hi'n ofynnol i ddefnyddwyr gwasanaeth gael yr hawl i weld eu cofnodion. Mater i'r unigolyn fyddai penderfynu pa wybodaeth y gallai'r person a enwebwyd ganddo/i o dan reoliad drafft 13(2)(f) ei gweld.

### Casgliad

Tynnwyd y gwelliant yn ôl

### Gwelliant 2 *(Plaid Cymru)*

Rheoliad 14. (2)

Ychwanegu fel paragraff newydd:

*(d) at the reasonable request of the adult or the individual named by the adult in the provision mentioned in regulation 13(2)(f).*

### Ymateb y Gweinidog

Derbyniwyd y gwelliant a awgrymwyd, ar yr amod y câi ei gyfyngu i'r oedolyn sydd wedi'i leoli yn unig. Nid oedd yn dderbyniol i'r hawl hon gael ei hestyn fel y cynigiwyd i'r person enwebedig o dan reoliad drafft 13(2)(f) gan y gallai hyn alluogi i'r person enwebedig wneud cais am adolygiad yn groes i ddymuniadau'r oedolyn yn y sefydliad.

### Casgliad

Derbyniwyd y gwelliant yn amodol ar y diwygiad uchod.

**Rhan IV**

### Gwelliant 3 *(Plaid Cymru)*

Rheoliad 28 (2) (b)

Ychwanegu fel paragraff newydd:

*(iii) involved the employment of physical restraint; and*

### Ymateb y Gweinidog

Ni chafodd y gwelliant ei dderbyn. Fel yn y gwelliant cyntaf, roedd hi'n ofynnol i gofnodion gael eu cadw ynghylch ataliaeth gorfforol yn unol â Rheoliad drafft 20 ac Atodlen 4. Yn unol â Rheoliad 28 roedd gofyniad pellach mewn perthynas â digwyddiadau arbennig, mwy difrifol yr oedd angen i'r person cofrestredig hysbysu Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru (ASGC) yn eu cylch o fewn 24 awr. Nid oedd hyn yn cwmpasu pob achlysur

pan gâi ataliaeth gorfforol ei defnyddio ac ni theimlwyd y byddai'n briodol i wneud hynny. Lle'r oedd y defnydd a wnaed o ataliaeth gorfforol yn arwain at y math o ddigwyddiadau yr ymdriniwyd â hwy yn Rheoliad drafft 28 yna byddent yn ddarostyngedig i'r gofyniad i'w hysbysu o fewn 24 awr.

**Casgliad**

Tynnwyd y gwelliant yn ôl.

7.2 Cytunodd y Gweinidog y byddai ystyriaeth yn cael ei rhoi i ychwanegu '*great grandparents*' at y perthnasau a restrwyd yn yr adran '*Interpretation*'.

7.3 Byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu at y Pwyllgor Busnes i'w hysbysu bod y Pwyllgor yn fodlon ar y rheoliadau a'r safonau gofynnol cenedlaethol.

**Cam gweithredu**

- Byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu at y Pwyllgor Busnes.

**Eitem 8: Cofnodion *(1.00pm)***
**Papurau: HSS(2)-02-04(min) a HSS(2)-03-04(min)**

8.1 Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 4 a 12 Chwefror 2004.

**Atodiad A**











